

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a gynhaliwyd ar yr 8fed Tachwedd, 2011, yn Y Neuadd Goffa, Y Felinheli
Minutes of the meeting of Felinheli Community Council held on 8th November, 2011 at Memorial Hall, Y Felinheli.

Yn Bresennol/Present: Ken Brown (Cadeirydd) ; Daniel Williams (Is-gadeirydd)
Lena Ashley; Ronald Gray; Gareth Griffith;
Sian Gwenllian; Iestyn Harris; Pat Jones; Eluned Owen;
Meirion Roscoe; Pat White.

1) Sylwadau Agoriadol/Opening Remarks:

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod gyda chroeso arbennig i'r Cyng Pat White ar ol absenoldeb yn dilyn damwain.

The Chairman welcomed all to the meeting with a special welcome to Cllr Pat White after her absence following an accident.

2) Ymddiheuriadau/Apologies Gerald Roberts; George Smith.

3) Datgan Diddordeb / Declaration of Interest – Dim / None

4) Cofnodion/Minutes:

Derbyniwyd a chadarnhawyd cofnodion Cyfarfod y 11eg Hydref 2011.

Minutes of the Meeting held on 11th October were received and confirmed.

Materion I'w Trafod/Matters for Discussion:

i) Gwefan Cymunedol –ystadegau mis Medi 33171
mis Hydref 34231

Diweddaru'r Wefan – Cyfarfod yw drefnu gyda Mr Michael Roberts, Delwedd.

ii) Cymunedau Cynladwy – Falch cyhoeddi bod cais Y Felinheli wedi ei ganiatau. Bu'r pentref yn un o 5 allan o 20 o geisiadau drwy Wynedd am gymorth ariannol er mwyn gwireddu prosiect trafndiaeth cymunedol. Bydd mwy o fanylder mewn amser a bydd llawer o waith darparu yw wneud. Bu i'r Cadeirydd ddiolch a llongyfarch Cyng. Sian Gwenllian a'r Clerc am eu gwaith yn darparu a chyflwyno'r cais.

iii) Cyfarfod Cyngorau Cymuned a Thref – Y Clerc a Chyng Lena Ashley yn bresennol yn y cyfarfod. Adroddiad gan Y Clerc yn amlinellu cynnwys y cyfarfod yma a gynhaliwyd yn Swyddfa Arfon, Cyngor Gwynedd, Penrallt, Caernarfon. Cyng. Sian Gwenllian yn diolch am yr adroddiad ac yn awgrymu bod yr adroddiad yn cael ei gynnwys gyda chofnodion cyfarfod y Cyngor.

- iv) Cyfarfod cyhoeddus parthed 11 Ffordd Caernarfon – dim penderfyniad tan mis Chwefror. Gwahanol gynlluniau yn mynd o gwmpas ond yr unig dir sydd mewn cwestiwn yw'r rhan o dir triongl sydd yn yr encilfa.
 - v) Llwybr Brynffynnon – disgwyl ymateb oddiwrth Cyngor Gwynedd.
 - vi) LOCOG – cyfarfod arall yw drefnu. Sylw Gwyl y Felin yw dynnu at y digwyddiad gan ddisgwyl cymorth eu pwyllgor i drefnu gweithgareddau i lawenhau taith y fflam drwy'r pentref. Awgrymiad parti plant yn y neuadd.
 - vii) Canllaw Newydd yn Rhiwal, Seilo – Gyngor Gwynedd yn cadarnhau y bydd canllaw newydd yn cael ei osod yn ystod y flwyddyn ariannol yma. Yn y cyfamser bydd y canllaw yn cael ei wneud yn ddiogel i ddefnyddwyr.
- i) Community Web site – statistics for the month of September – 33171
October - 34231
- Up-dating the web site – a meeting with Mr Michael Roberts, Delwedd, to be re-arranged.
- ii) Sustainable Communities – Pleased to report that Y Felinheli had been successful in their bid. The Village was one of 5 successful applicants out of a total of 20 applications for financial aid to realize its project on community transport. Detailed information will be available in time. In the meantime much preparatory work is to be undertaken. The Chairman thanked and congratulated Cllr Sian Gwenllian and the Clerk for preparing and submitting the application
 - iii) Community and Town Councils Meeting. The Clerk and Cllr Lena Ashley attended this meeting held at the Arfon Office, Gwynedd Council, Penrallt, Caernarfon. The Clerk outlined the contents of the meeting. Cllr Sian Gwenllian thanked the Clerk for the report and suggested that the report form part of the minutes of the Community Council's meeting.
 - iv) Public Enquiry – 11 Caernarfon Road. No decision expected until February. Different plans are circulating but the only land in dispute is a triangular area in the lay by.
 - v) Brynffynnon Footpath – reply awaited from Gwynedd Council.
 - vi) LOCOG – further meeting to be arranged. Gwyl y Felin to be aware of the occasion and their assistance sought to arrange events to celebrate the flame's journey through the village. Suggested that a children's party be held in the Hall.
 - vii) New Hand Rail in Rhiwal, Seilo – confirmation received from Gwynedd Council that a new handrail will be installed during this current financial year. In the meantime, the handrail to be made safe for users.
- 5) Adroddiad Pwyllgor Rheoli'r Neuadd / Hall Management Committee Report
- Cynrychiolwyr o'r Pwyllgor wedi cyfarfod a'r Pensaer ac wedi cyflwyno'r sefyllfa ariannol a chytundebol. Cost y brosiect hyd at swm y cytundeb wedi ei dalu. GWEITHRED: Pensaer i gyflwyno neges y Pwyllgor i'r Adeiladwr ac adrodd yn ol i'r Pwyllgor Rheoli.

Cyflogaeth - Rhestr Waith yw ddarparu ar gyfer y Gofalwraig.

Representatives of the Management Committee have met with the Architect and conveyed the financial and contractual position. The cost of the project up to the contract price has been paid. ACTION: Architect to convey the message to the Builder and report back to the Management Committee.

Employment – a schedule of work for the caretaker to be prepared.

6) Cadarnhau Gwariant y mis blaenorol ac Adroddiad Ariannol/Confirm Payments for the Previous Month and Financial Report:

Cadarnhawyd dreflen o wariant y Cyngor am fis Hydref.
Cyflwynwyd Cysoniad Banc i gadarnhau'r gweddill.

A summary of payments during the months of September.
A Bank Reconciliation was presented confirming the balances.

7) Gohebiaeth/Correspondence:

Derbyniwyd a nodwyd gohebiaeth ddaeth i law yn ystod y mis
Correspondences for the month were received and noted.

Cyngor Gwynedd - Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Ffordd
Dosbarth111 Ffordd Caernarfon Y Felinheli)(Cyfyngiad Cyflymder 40 mya)2011
Gwynedd Council - The Gwynedd Council (Class 111 Road Caernarfon Road, Y Felinheli)
(40mph Speed Restriction)Order 2011

Yn barod mewn grym / Already in for force.

Cynghorydd 2012 – Gwybodaeth i Ddarpar Ymgeiswyr / Councillor 2012 –
Information for Prospective Candidates.

Nodwyd / Noted

Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol Tal Aelodaeth 2011
Society of Local Council Clerks Membership Subscription 2011

Cytuno i dalu tal aelodaeth mewn swm o £106.
Agreed to pay the Membership Subscription of £106.

Mantell Gwynedd – Cymraeg Efo'n Gilydd / Welsh Together
Nodwyd / Noted

8) Adroddiad Is-Bwyllgor Cofeb y Cloc/Memorial Clock: -

Dim newydd yw adrodd ar sefyllfa'r gwlybanaeth yn y cloc.
Diolch i Mr David White a Chynghorydd Eluned Owen am drin ac ail
blannu'r potiau.
Trefniadau mewn llaw ar gyfer gwasanaeth Sul y Cofio.

No further information regarding the problem of water seepage.
Mr David White and Councillor Eluned Owen were thanked for attending and re-planting
the pots.
Arrangements in hand for the Remembrance Day Service.

9) Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications:

Dim ceisiadau yw trafod y mis hwn.

No applications to consider this month.

10) Neuadd yr Eglwys / Church House

Dim yw adrodd. Atebiad I lythyr y Clerc ddim wedi ei dderbyn. Penderfynnu gadael y mater ar y gweill ar hyn o bryd.

Nothing to report. A response to the Clerk's letter has not been received. Decided to leave the matter pending.

11) Adroddiad Is Bwyllgor y Fynwent/ Report of the Cemetery Sub-Committee

Dim yw adrodd / Nothing to report

12) Adroddiad Is Bwyllgor Maes Parcio/Lon Las/ Report of the Car Park/Lon Las Sub Committee

Maes Parcio yn dwt. – Car Park is tidy.

Lon Las – cwyn bod llygod mawr wedi eu gweld – Cyngor Gwynedd wedi ei hysbysebu / complaint of rats seen – Gwynedd Council notified.

13) Adroddiad Is Bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus/Cysgodfannau/Meinciau Report of Public Footpaths/Shelters/Benches Sub Committee

Dim yw adrodd. Nothing to report.

14) Cystadleuaeth Garddio / Gardening Competition

Bydd noson gwobreuo ar 16eg Tachwedd am 7.00 yn Mhlas Dinorwic

The presentation evening will be held on 16th November at 7.00pm at Plas Dinorwic

15) Adroddiad y Cynghorydd Sir/Report of County Councillor

Cafwyd Adroddiad ysgrifenedig gyda chopi i bob Gynghorydd.

1) Mae cais am arian i wella'r tirlun ar y llethr gwyrdd gyferbyn a Londis wedi ei gymeradwyo. Rwyf yn awyddus iawn i gael syniadau. Bydd angen sefydlu grŵp yn y pentref i drafod hyn.

2) Lon Las: rydym dal i ddisgwyl clywed a fu Cyngor Gwynedd yn llwyddiannus gyda chais i greu darn newydd o Lon Las ar hen drac y rheilffordd rhwng Allt Dinas a Ffordd Caernarfon (gan ddod i'r ffordd fawr ger y lay-by yn Ffordd Caernarfon). Os bydd yr arian

yn dod, bydd angen caniatad cynllunio a bydd cyfle i bobl leisio barn am y datblygiad newydd yma.

3)Diogelwch y ffordd : mae llinellau melyn dwbl wedi eu gosod ger yr ysgol a'r capel er mwyn gwella diogelwch y ffyrdd i blant, cerddwyr a gyrrwyr

4)Mae Pwyllgor yr Urdd wrthi'n ddiwyd yn codi'r £8,000 sydd angen i ni ei godi fel pentref at Eisteddfod 2012. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu. Mae angen codi tua £2,000 arall.

5)Cynhelias Fore Coffi i godi pres i elusen Macmillan ac fe godwyd £221.60 ; dwywaith cymaint a llynedd.

6)Diolch i Ganolfan Brynffynnon am godi sbwriel yn y pentref yn ddiweddar.

7)Cynllun Tai Tan y Maes. Bu Huw Jones o Jones Associates yn cynnal cyfarfod i gynghorwyr cymuned a llywodraethwyr Ysgol Felinheli yn amlinellu bwriad cwmni Watkin Jones i godi tai yn y cae ger yr ysgol. Mae'r tir yn rhan o'r Cynllun Datblygu Unedol ac mi fyddai'n rhaid cynnwys tai fforddiadwy. Nid yw'r cais wedi ei gyflwyno yn ffurfiol eto a bydd cyfle i bawb weld y cynlluniau a mynegi barn drwy'r broses cynllunio.

8)Bum yn cynrychioli rhai o drigolion Ffordd Caernarfon mewn ymchwilad cyhoeddus i'r gulfan barcio. Mae nhw yn ofni colli llefydd parcio yn sgil datblygiad ar safle 11 Ffordd Caernaron.

9)Cafodd cais cynllunio i ehangu Palas Pinc gyda ystafelloedd newydd yn y cefn ei basio.

10)Llwybr Cyhoeddus Pistyll ger Ffordd Brynffynnon : mae'r Clerc mewn cysylltiad ag adran llwybrau Cyngor Gwynedd gan fod peryg i waith yno amharu ar y llwybr.

11)Lon Llwyn : cefais ymholiad ynglyn a gwella cyflwr wyneb Lon Llwyn ac rwyf wedi gofyn i Cyngor Gwynedd ymateb ond nid yw'n flaenoriaeth ar hyn o bryd medde nhw.

12)Bun halen top Penceunant : roedd bun yn arfer bod yma. Clerc i holi Cyngor Gwynedd am un newydd. Ni fydd y Cyngor yn darparu buniau mewn safleoedd newydd ond gan fod hwn yn gyn-safle mae angen mynd ar ol y mater.

13)Kiosk Aberpwll: mae ei gylfwr yn dirywio ac mae pobl leol yn holi beth ellid ei wneud. Angen trafodaeth yn y Cyngor Cymuned.

14)Cyfyngiadau cyflymder yn Aberpwll ar y ffordd i fewn i'r pentre. Daeth cais arall am gael unai symud y 30MPH fwy allan o'r pentre neu am arwyddion 40MPH cyn y rhai 30 ac am ddulliau tawelu traffig. Byddaf yn codi'r mater efo'r Cyngor Sir.

15)Lon Las ger Yr Hen Orsaf (Penningtons): mae presywlwyr yn poeni am ddiffyg rheolaeth ar geir a beiciau ger yr eiddo. Mae llinellau ffordd newydd i'w gosod yma.

16)Lan Mor : Bu'r Cyng Daniel Williams mewn cystylltiad a'r heddlu ar ol i 2 gar fynd ar y man gwyrdd ar Lan y Mor. Mae'r Cyngor am osod bolard newydd. Penderfynwyd gadael i'r gwair ddod at ei hun yn naturiol gan bydd mwy o draul noson Tan Gwyllt.

17)Cafwyd bun baw cwn newydd ar Lon Las ger Yr Hen Orsaf ar ol i'r hen un dorri.

18)Cynllun Datblygu Lleol Y Felinheli : rydym angen trafod hyn a gofynnaf i'r eitem gael ei gosod ar agenda nesa'r Cyngor Cymuned.

Councillors' Report Nov 2011

1) An application for a small grant for landscape improvements on the green slope opposite Londis has been approved. I am eager to hear ideas. We will need to set up a group in the village to discuss and supervise this.

2)Lon Las: we still await a decision about the bid for money to create a new piece of cycle track on the old railway track between Allt Dinas and Ffordd Caernarfon (accessing the main road near the lay-by on Ffordd Caernarfon). If the money is forthcoming, the development will need planning permission and local people will be able to voice their opinions through the planning process.

3) Road safety: double yellow lines have been placed near the school and chapel to improve safety for children, pedestrians and road users.

4) The Urdd Committee is busy raising the £8,000 target we have as a village for next year's Eisteddfod. Thanks to all who have donated. We need to raise another £2,000.

5) I held a coffee morning to raise money for Macmillan Cancer Relief and we raised £221.60 ; twice as much as last year.

6) Thanks Canolfan Brynffynnon for doing a litter pick recently.

7)Tan y Maes Housing scheme. Huw Jones from Jones Associates held a meeting for community councillors and Ysgol Felinheli school governors to outline the intention of Watkin Jones and Co to build houses in the field near the school. This land is part of the Unitary Development Plan and would have to include affordable houses. The plan has not yet been submitted and there will be a chance for everyone to see the plans and make comments through the planning process.

8) I represented some of the residents of Ffordd Caernarfon in a planning inspection into changes to the lay-by. They are anxious not to lose parking spaces as a result of the development at 11 Ffordd Caernarfon.

9)A planning application to extend Palas Pinc with new rooms at the back has been passed.

10)Pistyll Footpath near Ffordd Brynffynnon : the Clerk is in contact with the footpaths section as the work going on there may infringe on the path.

11)Bush Road : I had an enquiry about the possibility of improving the surface of the road and I have asked Cyngor Gwynedd to respond, but they say it's not a priority within the county.

12)Salt chest at the top of Snowdon Street : the bin seems to have disappeared. Clerk to ask Cyngor Gwynedd for a new bin. The Council will not provide bins in new sites but as this is an old site we need to get another bin here.

13)Kiosk at Aberpwll: its condition is deteriorating and local people are asking what can be done. We need a discussion in the Community Council.

14)Speed limit signs at Aberpwll. Another request has been received to either move the 30MPH signs further out of the village or for 40MPH before the 30 signs and for traffic calming. I will raise the matter with the county Council.

15)Lon Las near Yr Hen Orsaf (Penningtons): residents are concerned about lack of regulation on cars and cycles near the building. New road markings are being proposed.

16)Beach: Cllr Daniel Williams had to contact the police after 2 cars went onto the green area on the beach. Gwynedd Council are to erect a new bollard. It was decided to allow the grass to recover naturally as there will be more wear and tear on Bonfire Night.

17)A new dog fouling bin was provided after the old one broke near Yr Hen Orsaf.

18) Y Felinheli Local Development Plan: we need to discuss this and I have requested that the item be placed on the agenda of the next Community Council meeting.

16) Unrhyw Fater Arall / Any Other Matter

Bin Halen, Salt Bin - Penceunant - Bin halen newydd wedi ei roi o flaen Rhif 19.
New Salt Bin located outside No.19.

Noson Tan Gwyllt – Fireworks night - Llongyfarch Gwyl y Felin ar noson lwyddiannus. Congratulations to Gwyl Y Felin on a successful night.

Lan y Mor / Beach Area

Adroddwyd bod modur 4 x 4 wedi ei ddreifio ar y glaswellt ger Gardd Fon ac wedi tyrchu'r ddaear mewn cylchoedd. Wedi creu lanast ar wyneb y glaswellt. Mae lluniau wedi ei dynnu o'r troseddwy'r rhif y modur wedi ei nodi. Trosglwyddwyd y manylion i Heddlu Gogledd Cymru gyda'r bwriad o erlyn y troseddwy'r.

Reported that a 4 x 4 vehicle had been driven onto the grassed area by Gardd Fon and had burrowed the land in circles thus creating a mess on the surface of the area. Photographs have been taken of the offenders together with the vehicle registration number. These details have been passed to North Wales Police with a view to prosecution.

Ciosg Ffon Coch / Red Telephone Kiosks

Clerc i holi beth mae BT yn bwriadu gwneud a rhain. Clerk to enquire what BT intend to do with these.

Dim materion eraill i'w trafod a daeth y cyfarfod i ben am 8.45.
No other matters to discuss and the meeting finished at 8.45p.m.

